Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ein cyf/Our ref: MY/ke
Eich cyf/Your ref:

Maes Newydd / Maes Newydd
Llandarsi / Llandarcy
Castell-nedd Port Talbot / Neath Port Talbot SA10 6JQ / SA10 6JQ

Ebost/Email:
mary.youell@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
mary.youell@naturalresourceswales.gov.uk

Ffôn/Phone: : 01792 32 5555

Annwyl Syr/Fadam,

YMGYNGHORIAD YNGHYLCH CYNLLUN RHI
GAN YMGORFFORI ASESIADAU RHEOLIADAU CYNEFINOEDD (ARhC) AC ASESIADAU AMGYLCHEDDOL STRATEGOL (AAS)
Diolch am ymgynghori gyda Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales ynglŷn â'r uchod.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dwyn ynghyd waith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ein pwrpas yw sicrhau y caiff adnoddau naturiol Cymru eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cytuno gyda chasgliadau'r ARhC/AAS ei bod hi'n annhebygol y bydd gweithredu'r cynllun hwn yn effeithio'n sylweddol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000.

Croesawn y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn gan yr awdurdod i lunio'r hyn a fydd yn Gynllun Rheoli effeithiol a defnyddiol – cynllun y mae'n bleser gennyf ei gymeradwyo. Gobeithio y bydd ein sylwadau a'n cyngor penodol, a luniwyd gan Chris Lawrence, yn ddefnyddiol ichi o ran gwella ac egluro mwy ar y cynllun. Mae'r cyngor a'r sylwadau fel a ganlyn:

**Pwyntiau penodol**

1. Sylwn ar y newid cyfeiriad tuag at fabwysiadu Dull yr Ecosystem. Fodd bynnag, argymhellwn gamau pellach yn unol â chyngor yr adroddiad 'Ecosystem Approach for Protected Landscapes Management Plan Reviews' Mawrth 2014. Gweler 6.7 - 6.14, tudalennau 24 a 25 yn arbennig parthed mapio gwasanaethau ecosystemau a'u buddion. Gallai hyn wella'r dull integredig cyffredinol o reoli'r gwasanaethau hyn a chynorthwyo gyda'r blaenoriaethu.

2. Mae gwaith pellach yn adlewyrchu Dull yr Ecosystem wedi'i wneud, ond ni chaiff ei adlewyrchu'n ddigonol yn y tabl yn Atodiad 2. Efallai y gellid disodli hwn gan baragraff

ychwanegol yn y cyflwyniad yn esbonio bod y dull newydd wedi'i integreiddio trwy'r holl Gynllun?

3. Mae angen cyflwyno data a thystiolaeth gadarn sy'n dangos tueddiadau hirdymor i ategu polisïau. Sylwn fod rhywfaint o'r dystiolaeth / data yn cael ei gyflwyno ar ddechrau rhai o'r penodau, ond mae eraill ar goll, er enghraifft Hawliau Tramwy ar agor ac ar gael i'w defnyddio (Darganfod a Mwynhau'r PC).

4. Er gwaethaf yr esboniad yn 3.1.3, mae angen cael Amcanion sydd, yn ddelfrydol, yn rhai CAMPUS. Dylid cynnwys canlyniadau a ffactorau, oherwydd cânt eu crybwyll yn 3.1.3.

5. Yn unol â Dull yr Ecosystem, gellid rhoi mwy o bwyslais ar ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth greu atebion cynaliadwy i nifer o'r heriau sy'n wynebu Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

6. Rydym yn falch o weld eich bod wedi tynnu sylw mewn amryw fannau at y cyfraniad y gall y dirwedd ei wneud at les pobl.

7. Nid yw'r tablau yn adrannau 5.2.4.3-5 yn defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf. Bydd y data hwn yn newid yn gyson trwy oes y cynllun. Mae CNC yn gobeithio y bydd y ganran o nodweddion a ystyrir fel bod yn ffafriol / yr unedau dan reolaeth gadwraethol briodol yn sylweddol uwch erbyn diwedd oes y cynllun. Er hynny, mae hyn yn dangos fod rhai o'n safleoedd bywyd gwyllt mwyaf sensitif dan bwysau amgylcheddol mawr a'u bod mewn perygl o fethu â bodloni eu hamcanion cadwraethol. Mae'r safleoedd dynodedig hyn yn cynrychioli'r ardaloedd sydd ymhlith yr enghreifftiau gorau o gynefinoedd, rhywogaethau, daeareg a geomorffoleg y DU.

8. Yn unol â Dull yr Ecosystem, mae'n bwysig defnyddio iaith glir, nad yw'n iaith dechnegol. Mae'r tablau y cyfeirir atynt uchod yn defnyddio'r termau nodweddion, unedau, ffafriol ac ati, ac efallai nad yw eu hystyron yn hawdd eu deall. Byddai rhoi esboniad pellach yn ddefnyddiol. Ymhellach, gellid ystyried cynrychioli'r data mewn modd gweledol, mewn siart o ryw fath.

9. O ran yr wybodaeth a geir yn y mapiau (tudalennau 33 a 35) sy'n cynrychioli hyd a lled Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, gellid ei gwneud yn gliriach trwy wneud gwell defnydd o liw. Mae'r map sy'n cynrychioli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn llawer haws i'w ddehongli.

10. Adran 7: Treftadaeth y Ddaear: Argymhellir eich bod yn gwneud gwell defnydd o liw ar y map sy'n nodi safleoedd yr Adolygiad Cadwraeth Ddaearegol (GCR).

11. Tabl 7.2.1.3, fel o'r blaen – esbonio beth yw 'nodwedd' yn unol â'r argymhelliad ar gyfer defnyddio iaith glir dan Ddull yr Ecosystem.

12. Gall safleoedd GCR arfordirol ddod dan bwysau o du cynlluniau i sefydlogi clogwyni a chynlluniau eraill i ddiogelu'r arfordir (7.3.2.3). Wrth geisio sefydlogi'r arfordir a lleihau perygl erydu, mae modd i nodweddion daearegol o ddiddordeb gael eu cuddio a gellid eu gwneud yn anhygyrch. Cyn rhoi cynlluniau o'r fath ar waith, dylid mynd ati i wneud cofnod gwyddonol cynhwysfawr o'r nodweddion sydd mewn perygl.

Ffôn/Phone: 0300 065 3000

Ffacs/Fax: 0300 065 3001

Ebost: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Email: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd,
Caerdydd, CF24 0TP

Cambria House, 29 Newport Road,
Cardiff CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

Correspondence welcomed in Welsh and English

13. Adran 8: Diogelu Aer a Dŵr. Ar hyn o bryd, mae Llwythi Critigol sylfaenol ar gyfer ansawdd yr aer yn uwch nag y dylent fod yn rhai o'n safleoedd mwyaf sensitif. Bydd hyn yn arwain at effaith negyddol, yn enwedig o ran elfennau sensitif fel cennau. Gyda chyfranogiad rhanddeiliaid, efallai y bydd modd rhoi cynlluniau rheoli lleol ar waith i liniaru effeithiau'r llygryddion aer hyn.

14. Ar hyn o bryd, nodir bod adnodd dŵr wyneb Afon Cleddau Dwyreiniol wedi ei ordrwyddedu. Mae hyn yn destun proses Adolygu Caniatâd barhaus fel y gellir pennu lefel addas ar gyfer tynnu dŵr.

15. Safonau Dŵr Ymdrochi Dynodedig (8.2.4). Erbyn hyn caiff 29 o draethau eu monitro gan CNC. Gellir cael yr wybodaeth ddiweddaraf gan CNC.

16. Llygredd Dŵr (8.3.3). Deallwn na fydd carthffos newydd wrth bont Wiseman yn cael ei gosod.

17. Llygredd gwasgaredig a llygredd yn y tarddle. Mae Dyfrfford Aberdaugleddau mewn perygl o fethu â chyrraedd ei hamcanion cadwraethol oherwydd y lefelau uchel o faetholion sydd ynddi. Mae prif ffynhonnell y maetholion hyn wedi'i phennu fel dalgylchoedd Afon Cleddau Dwyreiniol ac Afon Cleddau Gorllewinol, ac o'r herwydd gallai'r dalgylchoedd hyn fod yn Barthau Perygl Nitradau.

18. Polisi AW1, pwynt 3. Os nad yw lleihau allyriadau'n ymarferol, efallai y gellid ystyried camau lliniaru lleol.

I grynhoi, mae CNC yn croesawu'r fersiwn ddrafft hon o Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sy'n ymgorffori Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) / Asesiadau Amgylcheddol Strategol (AAS), ac mae'n edrych ymlaen at weithio mewn partneriaeth i gynorthwyo Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i gyflawni'r amcanion a nodir yn y ddogfen.

Fel ymhob achos arall, os byddwch angen mwy o wybodaeth neu eglurhad o'r uchod, mae croeso ichi gysylltu â ni trwy gyfrwng Chris Lawrence gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn.

Yn gywir,

Mary Youell
Rheolwr Gweithrediadau De Orllewin Cymru

Ffôn/Phone: 0300 065 3000

Ffacs/Fax: 0300 065 3001

Ebost: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Email: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd,
Caerdydd, CF24 0TP

Cambria House, 29 Newport Road,
Cardiff CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

Correspondence welcomed in Welsh and English